

**CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN**  
**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD NOS FAWRTH**  
**15 Mawrth 2016, Gosen, Llangwyllog**  
**am 7:00 y.h.**

<b>YN BRESENNOL:</b> Cyng D Morgan, D Pritchard, D Roberts, A Williams, G D Williams, W Williams, A Wyn, PCSO Alison Williams	
<b>YMDDIHEURIADAU:</b> Cyng M Lees, W Vaughan, D ap Rhobert, C McGregor	
<b>1</b>	Cadeirwyd y cyfarfod gan Cyng A Wyn.
<b>2</b>	<b>DATGAN DIDDORDEB</b> - Cyng D Pritchard - Menter Gymdeithasol Llangefni
<b>3</b>	<b>DERBYN COFNODION</b> Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 16 Chwefror 2016. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn. Cyng D Pritchard yn cynnig a Cyng D Morgan yn eilio.
<b>4</b>	<b>MATERION YN CODI O'R COFNODION</b>
<b>4.1</b>	<b>Gor-yrru Llangwyllog</b> - Cynigodd PCSO A Williams gweld os oes staff ar gael i checio ar gyflymder y traffig, hefyd cynigodd PCSO Williams cysylltu a'r Adran Priffyrdd i gofyn am mwy o arwyddion ar y bend wrth ymyl y capel
<b>4.2</b>	<b>Gofeb Talwrn</b> - Mae'r clerc yn disgwyl pris am plaque gan Inigo Jones
<b>4.3</b>	<b>Lon yr Ysgol</b> - Mae'r Clerc yn disgwyl clywed gan y Cyngor Sir
<b>4.4</b>	<b>Hysbysffwrdd Capel Coch</b> - mewn llaw
<b>4.5</b>	<b>20myh tu allan i Ysgol Talwrn</b> - Darllenwyd ebost gan y Cyngor Sir yn dweud: tydi'r Awdurod ddim ond yn gosod terfynau 20mya y tu allan I ysgolion sydd hefo systemau tawelu traffic corfforol (twmpathau) gan fod y rhain yn gostwng cyflymder cerbydau I lawr I tua 18mya ac felly yn hunan-gorfodi traffig I ostwng eu cyflymder.
<b>4.6</b>	<b>Coed - Maes y Coed</b> - Mae'r Clerc yn disgwyl am prisiau
<b>4.7</b>	<b>Dwr yn hel ar y lon wrth ymyl Stone Science</b> Darllenwyd ebost gan yr Adran Priffyrdd: Wedi jetio'r system, mae'r 'blockage' oedd yni wedi cael ei glirio, h.y roedd poteli ac ati yn geg yr outlet oedd yn dal lot o ddwr yn dol yn y manhole a felly'n backio'n dol i'r lon. Byddaf yn cadw golwg yma yn y dyfodol achos mae'r broblem yn dwad i fyny pob blwyddyn lle mai'n blockio hefo dail ac ati.
<b>4.8</b>	<b>Damwain sgwar Talwrn</b> - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan y Cyngor Sir
<b>4.9</b>	<b>Open Reach</b> - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb
<b>4.10</b>	<b>Mynediad Maes y Coed</b> - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan y Cyngor Sir
	<b>Llofnod.....Cadeirydd</b> <span style="float: right;"><b>19.04.16</b></span>

<b>5</b>	<b>GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON</b>
	<b>Cynllunio</b>
<b>5.1</b>	<b>Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Mon.</b> Bydd y Clerc yn trosglwyddo sylwadau y Cyngor: Mae'r Cyngor yn bryderus iawn ynglŷn â'r cynllun. Mae'r cynllun yn dangos diffyg ymchwil a'r effaith ar gymunedau Ynys Môn a Gwynedd. Mae'r gwaith wedi cael ei wneud gan gwmni yn Lloegr sydd ag ychydig neu ddim gwybodaeth o'r ardal.
<b>5.2</b>	<b>23C324A</b> cais llawn i godi annedd ynghyd a chreu mynedfa newydd i geir a gosod tanc septig ar dir gyferbyn a Bryn Felin, Capel Coch (cynllun newydd). Penderfynwyd gwrthwynebu y cais: Mae'r fynedfa yn achosi perygl ac mae'r cyngor yn bryderus ynghylch y gwelededd Mae maint y datblygiad yn edrych yn fawr o gymharu â datblygiadau eraill yn yr ardal ac allan o gymeriad.
<b>5.3</b>	<b>23C331</b> cais llawn ar gyfer codi adeilad amaethyddol ar gyfer cadw anfeiliaid ag offer a pheiriannau yn Maen Farm, Maenaddwyn - dim sylwadau
	<b>Priffyrdd</b>
<b>5.4</b>	Dwr yn hel ar y lon wrth ymyl Stone Science - gweler 4.7
<b>5.5</b>	20 myh Ysgol Talwrn - gweler 4.5
<b>5.6</b>	Cais i wyro llwybr cyhoeddus rhif 62 Llanfair ME & 5 Llanddyfnan - dim gwrthwynebiad
<b>6</b>	<b>GOHEBIAETH YCHWANEGOL</b>
<b>6.1</b>	Cyfoeth Naturiol Cymru - bydd cynrychiolydd yn dod i siarad gyda'r Cyngor yn y cyfarfod nesaf
<b>6.2</b>	Mrs Ruth Harper - cais unwaith eto gan Mrs Harper yn gofyn i'r Cyngor gwrthwynebu cais cynllunio 23C324A - gweler 5.2
<b>6.3</b>	Menter Gymdeithasol Llangefni - penderfynwyd cefnogi y prosiect
<b>7</b>	<b>MATERION ARIANNOL</b>
	Penderfynwyd talu y canlynol:
<b>7.1</b>	Costau y Clerc £25.59
<b>7.2</b>	Ceisiadau ariannol: Eisteddfod Genedlaethol Ynys Mon 2017 £1000, Ambiwlans Awyr £100, Urdd Rhanbarth Mon £100, Neuadd Talwrn £600.
<b>8</b>	<b>MATERION ERAILL</b>
<b>8.1</b>	Bainc, Mynydd Bodafon - darllenwyd llythyr gan Mrs Lesley Haslem, Mrs Penny Cobey a Mr Neil Broome yn gofyn am caniatad i adnewyddu neu drwsio y fainc wrth ymyl y llyn er cof am eu rhieni Bob a Hazel Broome ac yn cynnig £500 at y gôst. Penderfynwyd derbyn y cynnig a cael pris am drwsio. Bydd y Clerc yn anfon llythyr o ddiolch.
	<b>Llofnod.....Cadeirydd</b> <b>19.04.16</b>